COFNODION CYFARFOD y Pwyllgor Rheoli Datblygu A GYNHALIWYD ar ffurf hybrid yn Siambr y Cyngor – Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB ddydd Iau, 31 Gorffennaf 2025 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd R M Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | R J Collins | S Easterbrook | D T Harrison |
| M L Hughes | J Llewellyn-Hopkins | | |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Griffiths | D M Hughes | M R John | W J Kendall |
| J E Pratt | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Gillian Dawson | Cyfreithiwr – Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Ceisiadau Bach |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Steven Jenkins | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu |
| Robert Morgan | Prif Swyddog, Priffyrdd a Thrafnidiaeth |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |

## 144. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr aelodau canlynol:- |

| | |
|---|---|
| | Y Cynghorwyr R Williams, A Wathan a G Haines |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 31 Gorffennaf 2025 |

## 145. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant:-<br><br>Y Cynghorydd R M Granville – buddiant rhagfarnus yn eitemau 6 a 7 ar yr Agenda. Gadawodd y Cynghorydd Granville y cyfarfod tra ystyriwyd yr eitemau hyn a chymerodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd S Griffiths, y Gadair yn ei absenoldeb.<br><br>Y Cynghorydd J Pratt – buddiant personol yn eitem 6 ar yr Agenda gan fod ei wraig yn gweithio yn Ysgol Gynradd Afon Y Felin y cyfeirir ati yn yr adroddiad.<br><br>Y Cynghorydd S Easterbrook – buddiant personol yn eitem 6 ar yr Agenda gan y bydd ei wyres, o bosibl, yn mynychu'r ysgol sy'n destun y cais. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 31 Gorffennaf 2025 |

## 146. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 31 Gorffennaf 2025 |

## 147. Taflen Ddiwygio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Derbyniodd y Cadeirydd Daflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau y mae angen eu derbyn. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | |

## 148. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 31 Gorffennaf 2025 |

## 149. P/25/96/BCB – Tir i'r Dwyrain o Heol-Y-Parc, Gogledd Corneli

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar yr Amodau a gynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-<br><br>CYNNIG: Dymchwel y mân nodweddion allanol ac adeiladu adeilad Ysgol Cyfrwng Saesneg newydd, cyfleusterau allanol cysylltiedig, a mynedfeydd diwygiedig. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 31 Gorffennaf 2025 |

**150. P/25/98/BCB – Ysgol Gynradd Corneli, Teras Greenfield, Gogledd Corneli CF33 4LW**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: (1) Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar yr Amodau a gynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a bod hysbysiad o'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r cyfnod ailymgynghori ddod i ben ar 13 Awst 2025, ar yr amod na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau perthnasol newydd neu bellach.<br><br>CYNNIG: Dymchwel y ddwy ysgol gynradd bresennol, adeiladu adeilad Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd gyda seilwaith a gwaith tirlunio cysylltiedig (cynlluniau diwygiedig yn dangos safle gollwng a chasglu diwygiedig i fysiau o'r fynedfa i'r neuadd a chael gwared ar y safle gollwng a chasglu o Deras Greenfield a manylion sŵn ychwanegol)<br><br>(2) Os derbynnir unrhyw ystyriaethau neu wrthwynebiadau perthnasol pellach o fewn y cyfnod ymgynghori, yna rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, ar ôl ymgynghori ag Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, i gyflwyno'r rhain i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dyddiedig 21 Awst 2025, i'w hystyried. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 31 Gorffennaf 2025 |

**PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 31 GORFFENNAF 2025**

I weld y ddadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:11am